# Astudiaeth achos: Ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth yn ein meithrinfa

Mae Meithrinfa Nestlings yn lleoliad amlddiwylliannol, ecogyfeillgar, iach a chartrefol, sy'n gofalu am fabanod a phlant ifanc 0 – 5 oed, a'u haddysgu, yng nghanol Caerdydd.


Fel meithrinfa yng nghanol y ddinas, rydym yn ffodus bod gennym amrywiaeth fawr yn ein "Nyth", gan gynnwys y tîm staff a'r teuluoedd – sydd oll yn rhannu eu diwylliannau, credoau, dathliadau a mwy gyda'i gilydd.

Rydym yn ceisio addysgu ein staff, ein cymunedau a hefyd fy hun. Caerdydd oedd y ddinas amlddiwylliannol gyntaf yn y byd, ac roedd hynny oherwydd 'Bae Teigr'. Mae'n syfrdanol gweld mai dim ond newydd gael ei roi ar y cwricwlwm ysgol y mae hanes pobl Dduon, ond mae'n gam cyntaf i'r cyfeiriad cywir.

Fel meithrinfa, rydym yn sicrhau ein bod yn gwreiddio arferion gwrth-hiliaeth drwy'r feithrinfa, drwy gydol y flwyddyn, nid yn unig yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon. Dyma rai enghreifftiau yn unig o sut y gwnawn hyn:

- Hyfforddiant staff – Rydym yn dod ag ymwybyddiaeth ac yn ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth o fewn y tîm staff trwy ddarparu hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau addas
- Mae gennym Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb – un o'r meysydd yn y cynllun yw hil ac ethnigrwydd
- Rydym yn dod ag ymwybyddiaeth ac yn ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth yn yr ystafelloedd chwarae trwy ddarparu adnoddau amlddiwylliannol, gweithgareddau a digwyddiadau dathlu. Rydym hefyd yn cynnwys bwyd o bob cwr o'r byd yn ein bwydlen.
- Rydym yn hyrwyddo ymddygiad gwrth-hiliol drwy annog staff, plant a theuluoedd i gefnogi cymunedau lleol a llai ffodus.
- Rhaglen ffoaduriaid – rydym yn cynnig un lle y dydd yn rhad ac am ddim i ffoadur neu deulu sy'n chwilio am loches. Rydym yn cysylltu ag elusen ffoaduriaid leol i benderfynu pwy sydd â'r angen mwyaf a fydd yn elwa fwyaf.
- Ghana Link – rydym yn cefnogi ysgol ar gyrion Accra yn Ghana. Rydym yn codi arian i gefnogi plant i fynychu'r ysgol ac, ym mis Chwefror, fe wnes i ymweld â'r ysgol, gan ddarparu adnoddau ac awgrymiadau a chymorth i'r athrawon.










*'I'm not an anti-racist professional, but I am keen to share how we feel we help to prevent racism today and for the future'.*

*Misty Ardouin, Nursery Owner, Nestlings Day Nursery*

**Astudiaeth achos: Ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth yn ein meithrinfa V0.1 – APRIL,2024**

## Cefnogaeth bellach

- https://ndna.org.uk/ndna-cymru/curriculum-for-wales/inclusive-practice-in-wales-nurseries/